

Rhif: WG27117



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

Cynllunio a'r Iaith Gymraeg

Polisi Cynllunio Cymru
Diwygio Nodyn Cyngor Technegol 20:
Cynllunio a'r Gymraeg

Dyddiad cyhoeddi: 04 Ionawr 2016
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 30 Mawrth 2016

Trosolwg Diben yr ymgynghoriad hwn yw gofyn eich barn am newidiadau a wnaed i Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Gymraeg, sy'n rhoi arweiniad ar sut y dylai awdurdodau cynllunio lleol roi sylw i faterion yn ymwneud â'r Gymraeg wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau) ac wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

Sut i ymateb Dylech anfon eich atebion erbyn dydd Mercher, 30 Mawrth 2016. Gallwch ymateb mewn unrhyw un o'r ffyrdd isod:

Drwy'r e-bost

Llenwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad yn Atodiad C a'i hanfon at:

planconsultations-d@cymru.gsi.gov.uk

Rhowch "TAN 20: Ymgynghoriad am Gynllunio a'r Gymraeg" fel testun y neges.

Drwy'r post:

Llenwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad yn Atodiad A a'i hanfon at:

Ymgynghoriad ar TAN 20
Y Gangen Polisi Cynllunio
Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Ceir rhagor o wybodaeth berthnasol yn:

Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 8, Ionawr 2016) Pennod 4 Cynllunio ar gyfer Cynaliadwyedd, paragraffau 4.12.1 - 4.12.3 <http://gov.wales/topics/planning/policy/ppw/?skip=1&lang=cy>

Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20: Cynllunio a'r Gymraeg (2013):

<http://gov.wales/topics/planning/policy/tans/planning-and-the-welsh-language/?skip=1&lang=cy>

Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol: Argraffiad 2 (2015):

<http://gov.wales/topics/planning/policy/policy-and-guidance-on-development-plans/ldpmanual/?skip=1&lang=cy>

**Manylion
cyswllt**

I gael rhagor o wybodaeth:

Jonni Tomos
029 2082 1543

E-bost: jonni.tomos@cymru.gsi.gov.uk

**Diogelu
data**

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd staff eraill Llywodraeth Cymru yn ei weld hefyd i'w helpu i gynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu inni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig inni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, gallai fod rhesymau pwysig weithiau dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn inni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn hwnnw ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud y penderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Beth yw'r prif faterion dan sylw?

1. Mae adrannau 11 a 31 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) yn ymdrin â'r Gymraeg, a daethant i rym ar 4 Ionawr 2016. Diweddarwyd *Polisi Cynllunio Cymru*¹ er mwyn adlewyrchu Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 a'i chymryd i ystyriaeth, ac eir ati ym Mhennod 4 i amlinellu polisi cynllunio Llywodraeth Cymru ar y Gymraeg.
2. Mae'r Ddeddf Cynllunio yn cyflwyno darpariaeth ddeddfwriaethol ar gyfer y Gymraeg yn y system gynllunio, a hynny am y tro cyntaf erioed. Gyda'i gilydd, mae adrannau 11 a 31 yn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried mewn modd cyson a phriodol wrth baratoi cynlluniau datblygu ac wrth wneud penderfyniadau cynllunio. Mae'r newidiadau hyn wedi arwain at yr angen i ddiweddarau'r canllawiau cynllunio cenedlaethol yn Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Gymraeg.
3. O dan adran 11 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, rhaid i bob awdurdod cynllunio lleol ystyried yr effaith y bydd eu Cynlluniau Datblygu Lleol yn ei chael ar y Gymraeg, gan wneud hynny drwy gynnal asesiad priodol sy'n rhan o'r Arfarniad o Gynaliadwyedd y cynllun. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol fynd ati'n rheolaidd i sicrhau bod tystiolaeth yn ymwneud â defnydd o'r Gymraeg yn yr ardal yn cael ei diweddarau'n rheolaidd.
4. Mae adran 31 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn egluro y caiff effeithiau ar y Gymraeg fod yn ystyriaeth wrth benderfynu ar geisiadau am ganiatâd cynllunio, cyn belled â'i bod yn berthnasol i'r cais. Nid yw'r ddarpariaeth yn rhoi unrhyw bwys ychwanegol i'r Gymraeg o'i chymharu ag ystyriaethau perthnasol eraill. Mae pwysu a mesur a yw'r Gymraeg yn ystyriaeth berthnasol ai peidio yn achos unrhyw gais cynllunio yn fater sy'n gyfan gwbl yn ôl disgrisiwn y sawl sy'n gwneud y penderfyniad.
5. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn barn am y newidiadau arfaethedig i *Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Gymraeg*. Diben y newidiadau yw helpu awdurdodau cynllunio lleol i weithredu darpariaethau Deddf Cynllunio (Cymru).

Ble rydym ni arni ar hyn o bryd?

6. Eir ati yn Polisi Cynllunio Cymru i amlinellu polisiâu defnydd tir Llywodraeth Cymru. Fe'i hategir gan gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol (TANs). Dyma'r fframwaith ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol ac ar gyfer y cyfrifoldebau sydd gan Awdurdodau Cynllunio Lleol o ran gwneud penderfyniadau.
7. Mae polisi cynllunio Llywodraeth Cymru ar y Gymraeg yn cael ei amlinellu yn Adran 4.12 o Polisi Cynllunio Cymru (PCC).

¹ [Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 8](#), a gyhoeddwyd ar 4 Ionawr 2016

8. Fe'i cefnogir gan Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20: Cynllunio a'r Gymraeg (Hydref 2013) sy'n rhoi rhagor o arweiniad ar sut y dylai awdurdodau cynllunio lleol fynd ati i ystyried anghenion a buddiannau'r Gymraeg wrth baratoi cynlluniau. Ategir TAN 20 gan ganllawiau ymarfer ar gynllunio a'r Gymraeg (Mehefin 2014).

Ein rhesymau dros newid TAN 20

9. Rydym yn bwriadu diwygio TAN 20 er mwyn adlewyrchu'r darpariaethau yn Neddf Cynllunio (Cymru) 2015 sy'n ymdrin â'r Gymraeg, ac a amlinellir ym mharagraffau 3 a 4 uchod. Rydym yn cynnig hefyd y dylai elfennau o ddogfen Canllawiau Ymarfer TAN 20 gael eu cynnwys yn TAN 20 ei hun, fel y bo'r holl ganllawiau perthnasol mewn un lle.

Y Cynigion Ymgynghori

10. Rydym yn ymgynghori am newidiadau i *Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Gymraeg* sydd i'w weld yn **Atodiad A**. Dyma'r prif newidiadau i'r canllawiau:

- Bellach, wrth i Awdurdodau Cynllunio Lleol ystyried y Gymraeg yn eu Cynlluniau Datblygu Lleol, dylent wneud hynny ar sail y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer cynllunio yn hytrach nag ar sail y Cynllun Integredig Sengl. Dilëwyd y cyfeiriadau at y Cynllun Integredig Sengl, ac nid yw'r cyfeiriadau at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Cynlluniau Llesiant yn ganolog i'r TAN yn yr un modd ag yr oedd y Cynllun Integredig Sengl.

Mae newidiadau i'r perwyl hwnnw i'w gweld ym mharagraff 1.6 o Ran A.

- Mae Deddf Cynllunio (Cymru) yn egluro y caiff y Gymraeg, os yw'n berthnasol i'r cais, fod yn fater i'w ystyried gan y rheini sy'n gwneud penderfyniadau.

Mae rhagor o fanylion ym mharagraff 3.1 yn Rhan A.

- Cydnabyddir nad oes modd, wrth fynd ati i baratoi'r CDLI, ragweld pob datblygiad arfaethedig ac felly, cynigir y dylid caniatáu i ACLlau gynnal asesiad o'r effaith ar yr iaith yn achos mathau penodol o ddatblygiadau ar hap. Fel rheol, yr unig adeg y byddai gofyn cynnal asesiad o'r fath fyddai yn achos datblygiadau preswyl ac ynddynt 10 neu fwy o anheddau mewn ardaloedd y nodwyd yn y CDLI eu bod yn ardaloedd o sensitifrwydd neu o arwyddocâd ieithyddol.

Ymdrinnir â'r mater hwn ym mharagraffau 3.2 a 3.3 o Ran A.

Cwestiynau'r Ymgynghoriad

11. Mae'r ymgynghoriad yn canolbwyntio ar geisio barn am yr agweddau ar TAN 20 sydd wedi'u diwygio. Nid yw'n ystyried yr elfennau hynny o'r canllawiau sydd heb eu diwygio. Dyma gwestiynau'r ymgynghoriad:

C1	Ydych chi'n cytuno bod goblygiadau adran 11 ac adran 31 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) yn cael eu hesbonio'n glir yn y TAN 20 diwygiedig?
C2	Ydych chi'n cytuno y dylai awdurdodau cynllunio lleol, yng nghyd-destun ceisiadau ar hap, fedru clustnodi yn eu Cynlluniau Datblygu Lleol, ardaloedd lle mae'r iaith yn fater arbennig o sensitif?
C3	Mae'r canllawiau'n annog awdurdodau cynllunio lleol i weithio gyda sefydliadau megis swyddfa Comisiynydd y Gymraeg a'r Mentrau Iaith wrth nodi ardaloedd sydd o sensitifrwydd neu arwyddocâd ieithyddol. Ydych chi'n cytuno â hynny?
C4	Ydych chi'n cytuno ei bod yn dderbyniol cynnal Asesiadau o'r Effaith ar yr Iaith wrth ystyried ceisiadau annisgwyl am ddatblygiadau preswyl mawr ar safleoedd ar hap mewn ardaloedd arbennig o sensitif a ddiffinnir yn y CDLI?
C5	Ydych chi'n cytuno mai'r awdurdodau cynllunio lleol ddylai fod yn gyfrifol am baratoi Asesiadau o'r Effaith ar yr Iaith?
C6	Yn y ddogfen ddrafft a baratowyd at ddibenion ymgynghori, mae'r cyngor polisi a roddir yn TAN 20 yn cael ei gyfuno â'r canllawiau ymarferol pellach, sydd heb fod yn rhai rhagnodol. Ydych chi'n cytuno â hynny?

C7	Cynhaliwyd Aseiad o'r Effaith ar y Gymraeg yng nghyswllt y newidiadau i TAN 20 (gweler Atodiad B). Ydych chi'n cytuno bod yr aseiad hwnnw'n gywir o ran y modd y mae'n amlinellu'r effaith y bydd y canllawiau'n ei chael ar y Gymraeg?
C8	Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, mae croeso ichi roi gwybod inni.

12. Mae'r Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad i'w gweld yn Atodiad B. Mae'r ffurflen hefyd yn rhoi cyfle ichi gyflwyno sylwadau ychwanegol wrth ymateb i'r cwestiynau hyn.
13. Mae'n bosibl y bydd ymatebion i ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi – ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Pe bai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, dylech nodi hynny yn eich ymateb.

